

Neb yn malio

Hen gapel gwag

Y ffenestri'n deilchion

A gwydr fel conffeti pigog ar lawr.

Drws derw yn hongian

Yn feddw.

'God lives here' -

Geiriau

Wedi eu crafu fel adnodau arno.

A 'MOREIA 1885'

Ar lechen uwchben

Yn syllu'n drist.

A'r tu mewn

Crafiadau hyll lle bu canu

Caniau cwrw lle bu gwin y cymun

Staeniau yn lle sglein ar y seti

A neb yn malio.



Ar y bws

Swnllyd. Anghyffyrddus. Creu Stŵr. Diflas. Hir.

Sut mae'r daith adref ar y bws ysgol i ti?

Dychmyga hyn. Wedi gorffen diwrnod hir yn yr ysgol, mynd ar y bws, eistedd i lawr, ymlacio, gwyllo DVD ac yna cyrraedd adref wedi adfywio yn barod i wneud dy waith cartref!

Wel dyma sut mae pethau i fyfyrwyr yng Ngogledd Cymru (efallai ddim y darn am fod yn barod i wneud eu gwaith cartref!)

Ychydig flynyddoedd yn ôl fe wnaeth prosiect bws ysgol [ZOOM](#) daclo ymddygiad [gwrthgymdeithasol](#) a [bwlio](#) drwy osod systemau adloniant ar rai bysys ysgol i ddifyrru disgyblion a'u cadw nhw yn eu seddi.

Bwriad yr arbrwf oedd gweld a allai hyn helpu i ostwng bwlio a thynnu ychydig o'r pwysau oddi ar y gyrwyr bysys druan sydd yn gorfod cadw golwg ar y ffordd ac ymddygiad y teithwyr.

Ysgol Bryn Celyn oedd un o'r ysgolion oedd yn cynnal peilot y cynllun. Roedd adloniant fel cyngherddau, ffilmiau a rhaglenni dogfen natur yn cael eu dangos ar y bysys GHA oedd yn cario'r disgyblion.

"Mae'n gweithio!" meddai Berwyn, Rheolwr Gweithrediadau Bysus GHA. "Mae gyrrwr yn troi ei gefn ar 70 o blant ac yn gyrru. Trwy gadw eu sylw a rhoi adloniant iddynt ar y trip adref maent yn fwy tebygol o fihafio ac yn llai tebygol o achosi fandaliaeth neu dynnu sylw'r gyrrwr."

Cafodd yr arbrwf ei gefnogi gan y Cynulliad ac wedi blwyddyn roeddent am weld a oedd yn llwyddiannus.

"Ar ddiwedd pob diwrnod ysgol mae disgyblion yn mynd ar y bws am adref yn llawn cynnwrf ac egni, ac mae lefelau sŵn yn gallu tynnu sylw gyrwyr bws," meddai Stuart Davies, Cyd Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith Conwy a Sir Ddinbych.

"Efallai fod hyn i weld yn ffordd radical iawn ond os yw'n lleihau ymddygiad gwael ac yn stopio bwlio yna mae werth o. Yn America mae systemau adloniant yn cael eu defnyddio yn barod i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae'r canlyniadau yn bositif."

Rhai o'r DVD's addas at yr oedran oedd yn cael eu dangos oedd A Bug's Life, Planet Earth, Pixar Short Stories, Earth Power of the Planet, Amazon with Bruce Parry, Coldplay, Wall E, Take That Beautiful World Live, Harry Hills TV Burp a Marley and Me.



Fedrwch chi ddim dianc!

Astudiwch y lluniau hyn o fandaliaeth



Ieir bach yr haf

Ga i beintio ieir bach yr haf

Ymhobman a bywiogi'r stryd?

Ychwanegu lliwiau a deffro pobl?

Gwneud iddyn nhw chwerthin a chrio?

Rhoi rhywbeth iddyn nhw siarad amdano?

Byddai'r ieir bach yn hedfan uwchben

Yn saethu ar draws y palmant,

yn cropian i fyny'r waliau

i chwilio am flodau

i gasglu neithdar

melys, melys, melys.

A wnaiff pobl sylwi?

Fydd hi ots ganddyn nhw?

Wnan nhw ganmol?

Wnan nhw gwyno?

Fydd hi ots gen i beth wnan nhw?

Na! Dw i am beintio ieir bach yr haf ym mhobman

A bywiogi'r stryd i gyd!

Atal Fandaliaeth yn ystod gwyliau'r Haf

04 Awst

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwneud yr apêl er mwyn atal fandaliaeth i ysgolion tra bod disgyblion ar eu gwyliau.

Mae fandaliaeth i ysgolion yn costio miloedd ar filoedd o bunnoedd i'r awdurdod bob blwyddyn. Mae swyddogion addysg yn annog cymunedau i fod yn wyladwrus ac i adrodd am unrhyw ymddygiad amheus i'r heddlu.

Dywedodd arweinydd y cyngor, Ali Thomas, fod pob ceiniog sy'n cael ei wario ar fandaliaeth yn arian a allai brynu llyfrau neu gyfarpar newydd i'r ysgol.

Meddai, "Rwy'n annog pawb, yn enwedig y rhai sy'n byw'n agos at ysgolion, i fod yn wyladwrus yn yr wythnosau sydd i ddod. Nid yw ysgolion yn wag yn ystod gwyliau'r haf - mae gofalwyr, staff gweinyddol, athrawon a phenaethiaid yn parhau â'u dyletswyddau.

Rwy'n annog pawb sy'n gweld unrhyw beth amheus i gysylltu â'r heddlu ar unwaith - gallai atal miloedd o bunnoedd o ddifrod."

Os ydych yn gweld unrhyw ymddygiad amheus ger eich ysgol leol, ffoniwch yr heddlu ar 01792 456999 neu 999.

Yn dilyn darllen y datganiad yn y papur lleol ysgrifennodd un darllenwr y llythyr hwn:

Annwyl bawb,

Hoffwn ymateb i'r datganiad gan y Cyngor Sir ynglŷn â fandaliaeth mewn ysgolion yn ystod gwyliau'r haf. Mae'n fy mhlesio fod y Cyngor Sir yn sylweddoli fod staff yn parhau i weithio mewn ysgolion yn ystod gwyliau'r haf ond nid eu gwaith hwy yw gwarchod yr adeilad. A dweud yn gwir maen nhw'n gweithio mewn amgylchiadau peryglus.

Hoffaf y modd mae'r cyfarwyddwr yn dweud fod trwsio wedi fandaliaeth yn golygu defnyddio arian ddylai gael ei wario ar addysgu.

Wedi dweud hynny nid oes unrhyw gyfarwyddiadau pendant yn y datganiad ar wahân i ofyn i bobl lleol gadw llygad ar yr ysgolion.

A gaf i, yn garedig, awgrymu y dylid

Gwneud yn siwr bod y larymau tân a'r larymau lladron yn gweithio'n iawn.

Sicrhau bod golau digonol ar dir yr ysgol ac yn arbennig yn y corneli tywyll

Ystyried cyflogi rhywun i gerdded o gwmpas yr ysgol yn ystod y nos

Torri gor-dyfiant sy'n rhoi lle i guddio a thrwy hynny leihau'r risg o danau

Diffodd y cyflenwad nwy i'r labordai a'r ceginau

Symud biniau ysbwriel gan eu bod yn lleoedd delfrydol i gychwyn tân

Cadw'r giatiau ar glo a sicrhau bod y ffensus a'r giatiau yn gyfan

Cau llenni'r ystafelloedd i guddio'r hyn sydd yno

Storio offer drud e.e. cyfrifiaduron mewn ystafell dan glo, heb ffenestri ac ddim ar y llawr gwaelod.

Yn gywir,

Ianto Tomos.


Pethau'n gwella!

Mae ffigyrau fandaliaeth ym Mhrydain yn gostwng yn gynt nac unrhyw drosedd arall yn ôl ffigyrau swyddogol.

TUEDDIADAU MEWN FANDALIAETH YN LLOEGR A CHYMRU, 1981-Mehefin 2012

Trends in vandalism in England and Wales, 1981 – June 2012

Offences (millions)



Source: ONS Crime Survey for England and Wales

Pam?





Pobl wedi rhoi'r gorau i ddweud wrth yr heddlu

Yr eglurhad mwyaf syml ydy bod yr ystadegau yn anghywir! Dydy pobl ddim yn trafferthu i adael i'r awdurdodau wybod am achosion o fandaliaeth! Ond dydy'r ddadl honno ddim yn dal dŵr oherwydd mae'r ymchwil wedi ei seilio ar gyfweiliadau gydag aelodau o'r cyhoedd.

Mae pethau'n fwy anodd i'w fandaleiddio

Mae pethau oedd yn arfer bod yn dargedau i fandaliaeth yn anoddach i'w difetha yn ôl ClearChannelsy'n cyflenwi 350 o awdurdodau lleol gyda chysgodfeydd bysiau.

"Mae byrddau hysbysebu ar ein cysgodfeydd ac mae hynny yn cadw fandaliaid draw,' meddai'r cyfarwyddwr Mark Webb.

"Rydym hefyd yn creu effaith 'fffenest wedi torri'. Bydd ein timau cynnal a chadw yn ymateb ar unwaith pan glywir am fandaliaeth ac mae hynny yn help i barchu'r cysgodfeydd'.

Cosbau am ymddygiad gwrth-gymdeithasol

Mae rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo i wella ansawdd bywyd ar rai stadau anodd trwy ddefnyddio Asbos.

Yr anfantais, ar y llaw arall, ydy bod y drwg weithredwyr yn symud o un ardal i un arall.

Dulliau mwy soffistigedig o rwystro fandaliaeth



Mae'r awdurdodau lleol a'r heddlu yn delio'n well gyda fandaliaeth. Mae mwy o ymwybyddiaeth o CCTV a'r syniad y gallai aelod o'r heddlu guro ar y drws mewn wythnosau.

Balchder lleol

Mewn ardaloedd sydd â phroblemau cymdeithasol mae'r ieuenctid yn hongian o gwmpas mewn grwpiau, yn ymddwyn yn lloerig, yn cymryd mwy o gyffuriau ac yn fwy treisgar ond dydyn nhw ddim yn fandfaleiddio. Mae ganddyn nhw barch at eu hardal. "Weithiau dydy graffiti ddim yn gwneud i'ch stâd edrych yn dda,' meddai un bachgen ifanc.

Bu gostyngiad o 48% mewn fandaliaeth yn Cotgrave, yn Swydd Nottingham, wedi i'r cyngor, yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r Clwb Criced gydweithio i greu gweithgareddau hamdden i'r ieuenctid. Fe wnaethon nhw geisio helpu teuluoedd oedd yn achosi trafferth ac fe wnaethon nhw gosbi unrhyw un oedd yn gwerthu alcohol i bobl ifanc dan oed.

Y ffôn a'r cyfrifiadur


Roedd llai o achosion o fandaliaeth yn 2006/07 -tua'r un pryd ag yr ymddangosodd smartffonau ym Mhrydain. Mae pobl ifanc yn anfon oddeutu 200 tecst neu neges sydyn yr wythnos a bydd yr amser oedd yn caelei dreulio yn cicio sodlau ar gornel stryd yn cael ei dreulio ar y ffôn neu ar y wê.

Mae ymchwil gan Ofcom wedi darganfod bod 7% o bobl ifanc yn treulio llai o amser yn cymdeithasu gyda ffrindiau ers iddynt gael smartphone ac mae ffigyrau GameTrak yn dangos bod pobl ifanc 11- 14 oed yn treulio 13awr yr wythnos yn chwarae gemau cyfrifiadurol - a hynny fwyfwy ar smartphone.

GWERTHIANT SMARTPHONES 2005 - 2011

UK smartphone sales 2005-2011

Sales (millions)



Source: Ofcom

Y cyfrwng cymdeithasol yw'r graffiti modern

Yn draddodiadol dim ond trwy graffiti y gallai pobl ifanc adael i'r byd wybod am eu cariad neu eu casineb. Ond oherwydd Twitter a Facebook, maen nhw'n gallu ei gyhoeddi i'r byd a does neb yn gallu ei ddileu

Pobl ifanc yn yfed llai

Pam mae pobl ifanc yn yfed llai? Efallai bod y negeseuon iechyd yn cael effaith neu bod yr ieuencid wedi gweld eu brodyr a'u chwirydd hŷn yn dioddef.



Dim plwm mewn petrol

Mae hyn yn swnio'n ddwl bost ond awgryma ymchwil y gallai'r gostyngiad mewn trais fod oherwydd y gostyngiad mewn plwm yn yr atmosffer ers iddo gael ei wahardd o baent a phetrol.

Linda waz ere

Linda

rwyn dy gyfarch rwan

er nad ydw i yn dy nabod di.

Yma ar wal y Prom

yn y Rhyl

y syllaf ar d'ymgais

at anfarwoldeb graffiti.

Rhyw ddydd pan oedd y sment yn feddal

a thithau awydd gadael d'ôl

ar yr hen fyd'ma,

rhoist dy fys

i fandaleiddio'r sment cynnes

'Lina waz ere,'
a dyna sut yr ydwr i'n dy nabod di
i'th gyfarch.

Roeddwn am i ti wybod
ein bod ni gyd y run fath
yn yr hen fyd'ma
- eisiau gadael rhyw argraff
ar ein marwoldeb.

Aled Lewis Evans (Sbectol Inc, gol. Eleri Ellis Jones. Tud.9)

Ydy pobl ifanc yn cael cam?

Sawl tro ydych chi wedi clywed am bobl ifanc yn cam-ymddwyn neu yn fandaleiddio? Sawl tro ydych chi wedi darllen adroddiadau fel hyn yn y wasg? Efallai nad ydynt yn dweud mai'r bobl ifanc sy'n gyfrifol ond dyna'r awgrym.

Fandaliaeth yn rhwystro'r frwydr yn erbyn clefyd coed angheuol

Mae fandaliaid wedi achosi difrod i beiriannau sy'n cael eu defnyddio gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a'i gontractwyr i gwmpo coed sydd wedi eu heintio â chlefyd ramorum yng Nghoedwig Afan ger Port Talbot. Prawf nad mewn trefi yn unig mae fandaliaid yn difrodi.

Difrodwyd dau beiriant cynaeafu mewn dau ymosodiad ar wahân, ac o ganlyniad i'r fandaliaeth, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi gorfod rhoi mwy o swyddogion diogelwch yn y safleoedd cynaeafu yn yr ardal.



Fandaliaeth ym Mharc Padarn, Llanberis

Bin sbwriel ym Mharc Padarn a ddinistrwyd gan dân

Targedwyd biniau sbwriel mewn llecyn poblogaidd yng Ngwynedd gan fandaliaid dros y misoedd diwethaf.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am Barc Padarn yn Llanberis, lle mae staff y Cyngor wedi eu galw i sawl digwyddiad am fod rhywun wedi rhoi biniau sbwriel y parc ar dân.

Dinistriwyd o leiaf 20 bin ym maes parcio'r Lanfa yn y parc. Hysbyswyd yr heddlu o'r achosion.

Meddai Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig Cyngor Gwynedd, "Mae'r tannau hyn yn golygu fod y gwasanaeth o ddarparu biniau sbwriel ar gyfer y cyhoedd yn y parc dan fygythiad.

"Mae fandaliaeth ddi-hid o'r math yma yn gostus i drethdalwyr Gwynedd gan fod angen clirio'r safle a chael biniau newydd bob tro mae'n digwydd, ac mae hefyd yn golygu fod amser staff yn cael ei ddefnyddio i ymgymryd â'r gwaith."

"Dyw hyn ddim yn adlewyrchu'n dda ar ardal sydd wedi ennill gwobr Baner Werdd am y tro cyntaf yn 2008, sy'n cydnabod parciau gwledig a mannau gwyrdd o safon uchel."

"Mae'r mwyafrif llethol o ymwelwyr i'r parc yno i fwynhau'r amgylchedd naturiol arbennig ac rydym yn diolch iddynt am eu cefnogaeth, ond mae ymddygiad lleiafrif bychan yn achosi trafferthion. Mae colli biniau yn rheolaidd fel yma yn creu trafferth a llanastr, sydd yn bechod pan mae cymaint o deuluoedd yn ymweld â'r parc."

"Rydym yn erfyn ar y rhai sy'n gyfrifol i barchu eiddo ac i feddwl am ddiogelwch pobl eraill."

- Os oes gennych chi ydych unrhyw wybodaeth all fod o gymorth am y digwyddiadau yma, dylech gysylltu â'r heddlu neu Uned Parciau Gwledig Cyngor Gwynedd ar 01758 704066.

Ond oni ddylem ni dalu mwy o sylw i hanesion fel hyn?

GWEITHREDU GAN IEUENCTID YN ERBYN FANDALIAETH



Mae pobl ifanc yn Llanelli wedi dangos beth yw gwir ystyr 'Gweithredu gan Ieuenctid' drwy lanhau Parc Penmorfa.

Cafodd y parc graffiti ym Mhenymorfa, a gwblhawyd dan fenter Splash and Play, ei fandaleiddio â phaent gwyn. Mae [Cymunedau yn Gyntaf](#) wedi gweithio ochr yn ochr â [phrosiect SMART](#). Trefnwyd ymgyrch lanhau gan bobl ifanc. Cawsant gyfle i baentio eu graffiti eu hunain ar un ochr wal graffiti'r parc.

Dywedodd Kelly Wood, Gweithiwr Datblygu Cymunedau yn Gyntaf: "Mae hyn yn ymwneud ag annog pobl ifanc i leisio'u barn am y problemau y maen nhw'n eu hwynebu a chymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau hynny. Mae'n ymwneud â pherchenogi hefyd. Bydd gwaith y bobl ifanc hyn yno i'r holl gymuned ei werthfawrogi."

"Y gobaith yw y bydd yr ymwybyddiaeth o effeithiau fandaliaeth yn cynyddu yn sgil y prosiect."

Fforwm Ieuenctid

Cai y Cyflwynydd: Croeso i chi yma heno i'r Fforwm! Gyda ni yn y gynulleidfa mae cynrychiolwyr o dair ysgol uwchradd lleol. Croeso! Aelodau'r panel ydy Aelod y Cynulliad, Dai Jones, y Cynghorydd Sir, Nia Williams a Wil Lloyd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Croeso i chwithau.

Pwnc ein trafodaeth heno ydy FANDALIAETH ac mi hola i'r cwestiwn cyntaf i Dai Jones.

Sut fyddech chi'n diffinio'r termau 'fandal' neu 'fandaliaeth'?

Dai Jones: Rhywun sy'n difetha neu falurio eiddo neu waith rhywun arall ar bwrpas siwr o fod. Eiddo cyhoeddus neu breifat.

Wil Lloyd: Ie, anharddu ac amharchu rhywbeth heb ganiatâd y perchennog. Gwneud niwed i rywbeth heb reswm. Fe all o gychwyn fel direidi a chwarae plant ond yna mae'n mynd dros ben llestri.

Cai: Pam, yn eich barn chi, mae pobl yn fandaleiddio?

Dai Jones: Yr hyn sy'n drist ydy bod pobl yn meddwl fod fandaleiddio yn hwyl. Dydy e'n sicr ddim yn hwyl i'r rhai sy'n dioddef. Pobl ddwl sy'n fandaleiddio, pobl sy'n methu dweud 'NA!' pam mae eu ffrindiau yn gofyn iddyn nhw wneud rhywbeth.

Nia Williams: Rydw i'n cytuno mai pobl ddwl sy'n fandaleiddio. Maen nhw hefyd yn dymuno cael mwy o bethau bydol fel arian a dillad drud ond does ganddyn nhw mo'r arian i'w cael ac felly maen nhw'n difetha eiddo pobl erail. Maen nhw'n eiddigedus. Mewn rhai ardaloedd, cofiwch, mae'n digwydd i ddangos hiliaeth neu gasineb at gredoau crefyddol eraill.

Wil Lloyd: Dydych chi ddim yn hollol deg â phobl ifanc. Rhaid i mi gyfaddef mai pobl ifanc sy'n fandaleiddio ran amlaf ond ai eu bai nhw ydy e? Oni ddylen ni eu helpu? Efallai mai'r ffordd maen nhw wedi cael eu magu sydd ar fai. Efallai mai bai eu rhieni ydy e. Weithiau mae'n rhywbeth i'w wneud pan maen nhw'n bored. Ac ar bwy mae'r bai am hynny? Mae fandaleiddio hefyd yn gallu bod yn rhan o gael derbyniad i gang neu yn ffordd i fachgen ddangos i ferch mae'n ei ffansio ei fod ynmacho.

Dai Jones: Mae'n gallu bod yn ffordd o ddial hefyd. Os ydy person wedi gwylltio gyda rhywun mae'n dangos hynny trwy wneud niwed i'w eiddo.

Cai: Roeddech chi'n awgrymu efallai bod bai ar y rhieni, Wil. Ym mha ffordd allai'r rhieni helpu?

Wil Lloyd: Yn anffodus, mae'n anodd cael tystiolaeth bod person ifanc wedi bod yn fandaleiddio - heb iddo gario arwydd stryd adref gydag ef! Anaml iawn mae'r 'fandal' yn ymddwyn yn wahanol wedi iddo fandaleiddio hefyd. Dyna pam mae'n bwysig i rieni siarad gyda'u plant am fandaliaeth ac egluro pam nad yw yn syniad da. Dylai'r rhieni wybod ble mae eu plant bob amser oherwydd mae plentyn sy'n gwybod bod ei rieni yn poeni amdano yn llai tebygol o gam-ymddwyn.

Nia Williams: Rydw i'n cytuno bod gan y rhieni ddyletswydd i addysgu eu plant. Rhaid iddyn nhw egluro'r gwahaniaeth rhwng fandaliaeth a thriciau diniwed. Rhaid iddyn nhw ddeall fod fandaleiddio yn costio llawer o arian i drethdalwyr oherwydd mae'n rhaid trwsio'r eiddo. Am fod ysgol yn gorfod talu am lanhau graffiti, er enghraifft, rhaid torri i lawr ar dripiâu ysgol. Mae'n rhoi argraff ddrwg o ardal hefyd a dydy pobl ddim am fynd yno.

Dai Jones: Yn bwysicach na hynny rhaid i fandaliaid sylweddoli bod fandaleiddio yn DROSEDD! Bydd ar eu record pan fyddant yn chwilio am waith neu'n ceisio mynd i goleg - nid eu bod yn fath o bobl ifanc fyddai'n mynd i goleg! Dydy fandaliaid ddim yn gorfod dioddef digon chwaith. Mae eisiau cosbau llym. Dydy glanhau wal ddim yn llawer o gosb. Fe ddylen nhw orfod talu am drwsio pethau fel ceir! Fe ddylen nhw ddiodeff. Dyna maen nhw'n ei haeddu! Yna gwnewch yn siwr bod gennych gornel 'sanctaidd' i'ch artistiaid graffiti arddangos eu doniau anhygoel!

Cai: Oes yna ryw ffordd arall o ddatrys y broblem?

Wil Lloyd: Un ateb amlwg, wrth gwrs, ydy sicrhau bod gan bobl ifanc ddigon o bethau i'w gwneud yn eu hamser hamdden. Rhaid sicrhau bod digon o gyfleoedd i bawb yn y canolfannau hamdden, y canolfannau awyr agored a'r clybiau ieuenctid. Rhaid cael rhywbeth at ddant pawb, o weu i rygbi, o waith clai i abseilio. A rhaid i'r gweithgareddau hyn fod o fewn cyrraedd i bawb ac yn fforddiadwy. Dylai'r cyngor lleol eu noddi.

Nia Williams: Haws dweud na gwneud! Rhaid i chwithau gofio nad ydy ein harian ni yn tyfu ar goed!

Dai Jones: Yr hyn fyddwn i'n ei wneud fyddai rhoi digon o waith i'r cnafon. Gwneud iddyn nhw dorri glaswellt parciau'r dref a chartrefi hen bobl, gwarchod babis mewn meithrinfeydd a mynd â chŵn yr RSPCA am dro. Eu cadw'n brysur a rhoi ychydig o arian yn eu pocedi. Dyna'r ateb!

Cai: Diolch yn fawr iawn i chi gyfeillion. Mae ein hamser wedi dod i ben. Diolch am noson ddifyr iawn.